**Cyfeillion Amgueddfa Cymru**
**Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP**

**Friends of National Museum Wales**
**Cathays Park, Cardiff CF10 3NP**

**Sadwrn 18 Chwefror 2017 am 10.30yb**

**yn Narlithfa Reardon Smith, Amgueddfa Cymru, Parc Cathays**

**'Cedric Morris and his Circle'**

**Sgwrs gan Nicholas Thornton, Pennaeth Celfyddyd Gain Amgueddfa Cymru Caerdydd**

Roedd Cedric Morris (1889-1982) yn un o arlunwyr pwysicaf yr ugeinfed ganrif. Ac yntau wedi ei eni yn Abertawe, cafodd fywyd hynod a'i arweiniodd i gymysgu â'r *avant garde* ym Mharis, helpu i sefydlu Cymdeithas Celfyddydau Cyfoes Cymru, a chreu ysgol gelf idiosyncratig ar ffin Suffolk-Essex. Trafodir y cyfnodau allweddol hyn yn ei fywyd ynghyd â'u gyflawniadau fel arlunydd tirluniau, portreadau a blodau, yn ogystal â'i ymroddiad parhaus i gelfyddydau a phobl Cymru.

Mae gan Nicholas Thornton gyfrifoldeb arbennig dros gasgliadau ôl-1900 yr Amgueddfa. Ymhlith ei brif arddangosfeydd diweddar a seiliwyd ar y casgliadau hyn cafwyd *Ni allaf ddianc rhag hon* (2011), *Pop and abstract* (2013) a *Poetry, Romanticism and Myth* (2014). Cyn iddo symud i Gymru roedd Nicholas yn Guradur Celf Fodern a Chyfoes yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Norwich, lle'r ymgymerodd â sawl prosiect arddangosfaol, gan gynnwys *Cedric Morris and Lett Haines: Teaching Art and Life*, a ddaeth ar daith i AC / NMW yn 2003.

Y tâl mynediad, i gynnwys coffi a bisgedi yn Ystafelloedd Oriel ar ôl y sgwrs, yw £8 i'r Cyfeillion sydd yn archebu ymlaen llaw, neu £10 wrth y drws. Er mwyn manteisio ar y gostyngiad tâl, llenwch y daflen isod, os gwelwch yn dda, a'i hanfon gyda'ch siec (i Gyfeillion Amgueddfa Cymru) erbyn **dydd Mercher 15 Chwefror** at: **Ann Saer, 15 Highfields, Llandaf, Caerdydd CF5 2QA**. (Gallwch holi a oes lle ar ôl drwy ebostio annsaer15@gmail.com, neu ffonio 029 2056 2756.) **Noder: os byddwch yn anfon cais am fwy nag un digwyddiad, anfonwch siec ar wahân am bob un, os gwelwch yn dda.** I arbed costau postio, ni fydd cydnabod. Gwnewch ymdrech i ddod – a dewch â'ch ffrindiau hefyd, gan fod y digwyddiad yn agored i'r cyhoedd am dâl o £10 (ymlaen llaw neu wrth y drws). Bydd croeso cynnes iddynt.

………………………………………………………………………………………………………………

**Cyfeillion Amgueddfa Cymru**
**Sgwrs gan Nicholas Thornton: 'Cedric Morris and his Circle'**
**Dydd Sadwrn 18 Chwefror 2017 am 10.30yb yn Narlithfa Reardon Smith, Amgueddfa Cymru, Parc Cathays, Caerdydd**

Carwn archebu ..……… (l)le ar gyfer y digwyddiad uchod. Amgaeaf siec am £ ………. (yn daladwy i Cyfeillion Amgueddfa Cymru)

Enw(au) ......................................................... Cyfeiriad ..................................................................

Cod post .......................... Ffôn .......................................... Ebost ...................................................

☒ Cadarnhaf fy aelodaeth wedi ei thalu'n llawn o Cyfeillion Amgueddfa Cymru.

Rhif cofrestru fel elusen 701990